# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-04-06)

### Dyddiad y cyfarfod: 9 Mai 2006
### Amser y cyfarfod: 17:30 - 18:30
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| Glyn Davies AC | Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Janet Davies AC | Archwilio |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Weithredwr Seneddol, Swyddfa'r Llywydd |
| Lara Date | Dirprwy Glerc |

#### Eitemau Busnes Rheolaidd

#### Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2006

1.1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler AC, Janice Gregory AC, Chris Gwyther

AC, Gwenda Thomas AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Sandy Mewies AC a Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad.

1.2 Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ar gyfer eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd:**

Yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r cofnodion ar y Rhyngrwyd.

### Eitem 2: Materion yn codi

2.1 Nododd y Panel y materion a gododd o'r cyfarfod blaenorol.

### Eitem 3: Eitemau'r Cadeiryddion

3.1 Ni nodwyd unrhyw faterion gan y Cadeiryddion.

Eitemau i'w Cofnodi

### Eitem 4: Sylw i'r Pwyllgorau yn y Cyfryngau

4.1 Nododd y Panel y sylw a roddwyd i'r Pwyllgorau yn y cyfryngau yn ystod mis Ebrill.

### Eitem 5: Hynt Mesurau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru a chraffu arnynt

5.1 Nododd y Panel yr adroddiad ar hynt Mesurau drwy'r Senedd a'r broses o'u hystyried gan Bwyllgorau'r Cynulliad.

### Eitem 6: E-ddemocratiaeth

6.1 Nododd y Panel y papur ar hynt y prosiect e-ddemocratiaeth. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Glerc y Pwyllgor am y gwaith o sefydlu fforwm e-ddemocratiaeth ar drefniadau etholiadol. Hwn oedd un o'r dulliau ymgynghori a bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwerthuso'r math o ymatebion a dderbyniwyd. Cadarnhawyd y byddai'r fforymau e-ddemocratiaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Eitemau i'w Trafod

### Eitem 7: Craffu ar Gyllideb

7.1 Nododd y Panel y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr hyfforddiant a'r brîff a ddarperir i Bwyllgorau ar sut i graffu ar gyllideb. Mae'r papur hefyd yn nodi rhaglen arfaethedig eleni pan fydd y broses gyllido yn debygol o newid i adlewyrchu'r cynigion ym Mesur Llywodraeth

Cymru.

7.2 Cytunodd y Panel fod y sesiynau brifio yn ddefnyddiol. Bydd y Cadeiryddion yn ymgynghori â'r swyddogion Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau dan sylw er mwyn sicrhau y caiff y sesiynau eu haddasu at anghenion Pwyllgorau unigol.

**Cam i'w gymryd:**

Swyddogion Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gysylltu â Chadeiryddion a Chlercod Pwyllgorau unigol i drefnu sesiynau craffu ar gyllideb fel y bo'n briodol.

### Eitem 8: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gydweithio â'r Pwyllgor Materion Cymreig

8.1 Mae'n debygol y cynhelir sesiwn ar y cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig yn y mis nesaf. Mae dal angen cytuno ar y manylion gyda Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol a chyflwynir adroddiad ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Panel.

### Eitem 9: Unrhyw fater arall

9.1 Cytunodd y Panel y dylai gynnal rhag-gyfarfod byr cyn y gynhadledd fideo gyda Syr Jeremy Beecham ar ei adolygiad yng nghyfarfod nesaf y Panel ar 13 Mehefin. Paratoir brîff i lywio'r drafodaeth honno.

**Cam i'w gymryd:**

Yr Ysgrifenyddiaeth i nodi rhag-gyfarfod ar yr agenda a threfnu i ddosbarthu papur briffio i Aelodau'r Panel cyn y cyfarfod ar 13 Mehefin.

9.2 Caiff y cyflwyniad a drefnwyd gyda Golygydd y Western Mail ei ohirio o gyfarfod nesaf y Panel oherwydd pryder na fydd digon o amser ar gael ar gyfer yr eitem o ganlyniad i faterion eraill.

**Cam i'w gymryd:**

Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â swyddfa Alan Edmund i aildrefnu'r cyflwyniad gan Olygydd y Western Mail.

9.3 Nododd y Panel y papur ar ddangosyddion perfformiad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer mis Chwefror.

Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

Mai 2006